

Teithiau Penllyn

Taith i Bob Gallu - o gwmpas Y Bala

Cymdeithas Twristiaeth y Bala a Phenllyn

Go Bala

All Ability Trail Around Bala

Bala & Penllyn Tourism Association

T3

Taith i Bob Gallu | All Ability Trail



Crynodeb

Taith gylch – y rhan fwyaf ar lwybrau caled a thir gwastad yn cynnwys glaswellt (all fod yn wlyb ar adegau) – addas i gadeiriau olwyn, sgwteri mobility (RADAR key) cadeiriau plant, etc. Mae golygfeydd ardderchog o'r Llyn, afonydd a'r mynyddoedd o amgylch Y Bala. Rhybudd! Mae rhannau gerllaw afonydd â dŵr dwfn/cyflym a dylid gwylio newidiadau lefel dŵr di-rybudd.

Mae Cymdeithas Dwristiaid y Bala a Phenllyn wedi gwirio'r wybodaeth roddir yn y daflen hon ond gall rhai newidiadau ddigwydd. Dylech fod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun. Cymerwch sylw o rybuddion, dilynwch y Côd Cefn Gwlad. Gweler gwefan www.GoBala.org (Gwybodaeth/Diogelwch)

Gwybodaeth i Dwristiaid:	www.VisitBala.org neu www.ymwelldageryri.info
Gwybodaeth am Deithiau:	www.GoBala.org

Cynlluniwch eich taith

Pellter	3.2 km (2filltir)
Amser	1 - 1½ awr
Map	OS OL23 neu OL18
Y Daith	Llwybrau gwastad wyneb caled a Stryd Fawr Y Bala
Dechrau / Gorffen	Canolfan Hamdden Heol Pensarn, Y Bala, LL23 7SR SH922355
Parcio Ceir	Wrth y Ganolfan Hamdden (Talu ac arddangos)
Toiledau	Canolfan Hamdden a'r Dref
Bwyd a Diod	Caffi'r Ganolfan Hamdden a'r Dref
Cludiant Cyhoeddus	Gwasanaeth bws Wrexham-Bala-Abermaw. www.GoBala.org (Gwybodaeth/Cludiant Cyhoeddus)
Rhybudd	Dylid goruchwyllo plant. Mae'r daith yn mynd heibio dŵr dwfn a chyflym a byddwch yn croesi ffyrdd prysur

www.GoBala.org



Y Daith

- 1** **DECHRAU** Gadael y Ganolfan Hamdden tua'r Llyn **A** a mynd i'r chwith ar hyd y llwybr sy'n dilyn y clawdd llanw. Mae ramp i'r clawdd llanw ar y dde.
- 2** Byddwch yn troi i'r dde wedi cyrraedd y briffordd B4391. (Cyn cyrraedd pen draw'r llwybr clawdd llanw sylwer fod ramp i gadeiriau olwyn ar y llaw chwith yn arwain trwy'r maes parcio.)
- 3** Wedi 50m croeswch y briffordd ac ewch i'r llwybr a farciwyd sy'n dilyn y clawdd llanw gyda glan Afon Dyfrdwy. Mae'r afon ar eich llaw dde. **B**
- 4** Ewch heibio cymer afonydd Dyfrdwy a Thryweryn. Cadwch i'r llwybr a farciwyd ar hyd y clawdd llanw. **C D E** Yn awr mae afon Tryweryn **F** ar y dde i chwi. Ewch ymlaen at Bont Tryweryn a phriffordd (A494).
- 5** Wrth y bont, (Pont Tryweryn /Pont Y Bala) (A494), ewch i'r chwith tua'r dref ac ar hyd y Stryd Fawr **G L** Ewch ymlaen ar hyd Heol Pensarn a bydd diwedd y daith yn Y Ganolfan Hamdden. **GORFFEN**

Os dymunwch gallwch droi'n ôl a dilyn yr un llwybr yn ôl i'r man cychwyn.




Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig Ewrop yn Buddsoddi newen Arddaeidd Gwledig The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas





- | | | | |
|--|---|--|--|
| | Dŵr/Afon
Water / River | | Eglwys / Capel
Church / Chapel |
| | Coedwig
Woodland | | Safle Bws
Bus Stop |
| | Prifffordd
A Road (trunk) | | Swyddfa Bost
Post Office |
| | Prifffordd
A Road | | Safle Treftadaeth
Heritage Site |
| | Ffordd B
B Road | | Fferylfa
Chemist |
| | Ffyrdd Eraill
Other Roads | | Canolfan Feddygol
Medical Centre |
| | Rheilffordd
Railway | | Banc
Bank |
| | Llwybr
Footpath | | Canwio a Cheufadu
Canoeing / Kayaking |
| | Llwybr aml ddefnydd
All Ability Footpath | | Pysgota
Fishing |
| | Parcio
Parking | | Hwyllo
Sailing |
| | Parcio Ceir a Coets
Car & Coach parking | | Ailgylchu
Recycling |
| | Toiled
Toilet | | Di-wifr
Wireless |
| | Cawod
Shower | | Gorsaf Rheilffordd
Railway Station |
| | Canolfan Croeso
Tourist Information Centre | | Golff
Golf |



A Llyn Tegid yw llyn naturiol mwyaf Cymru, tua 3½ milltir o hyd a 150tr o ddyfnder. Mae'n gorwedd ar ffawt ddaeaeregol Bala – Tal-y-llyn. Lluniwyd yr hafn gan erydiad rhewlifant adeg Oes y Rhew. Mae'r Gwyniad, pysgodyn unigryw tebyg o ran ei siâp i bennog, yn byw yn y llyn.



Dywed chwedl leol i'r llyn ddod fel cosb am fywyd ofer a chreulon Tegid Foel, tywysog lleol. Yn ôl y chwedl boddwyd ei balas a'i ddeiliaid. Cynhaliwyd cyfeddach feddw ac esgeulusodd ei weision osod clawr ar y ffynnon hud fyddai'n gorlifo wedi nos. Dim ond un ddihangodd – telynor crwydrol a arweiniwyd o berygl gan aderyn bach oedd yn galw arno'n ddi-baid, "Daeth dial! Daeth Dial!" Pan ddeffrodd ar ochr y bryn fore trannoeth gwelodd lyn anferth yn llenwi'r dyffryn a'i delyn yn arnofio ar ei wyneb!

Clywyd chwedlau diweddarach am anghenfil yn cuddio'n y dyfnderoedd. Yn 1955 bu llong danfor fechan yn syrfeio gwely'r llyn ond ni welwyd siw na miw o unrhyw anghenfil!

B Ystyr Bala yw man lle llifa afon allan o lyn ac ystyr Dyfrdwy yw "Dŵr Dwyfol – duwiol neu sanctaidd" – adlais o'r Cyfnod Celtaidd pan addolid afonydd a llynnoedd.

Yn 1805, adeiladodd Thomas Telford set of lifddorau yn union islaw hen Bont Mwnwgl y Llyn (Pont-gwddf-y-llyn) i reoli cyflenwad dŵr i'w gamlas newydd yn Llangollen a Phontcysyllte. Does dim o'r olion i'w gweld bellach. Fodd bynnag, mae'r syniad o reoli llif yr afon wedi goroesi a thynnir dŵr allan o afon Dyfrdwy yn ddyddiol gerllaw Dinas Caer i gyflenwi 3 miliwn o boblogaeth.

Ar ddechrau'r 50au adeiladwyd Cynllun Llyn Tegid / Rheoli Afon Dyfrdwy. Gostyngwyd lefel gwreiddiol y llyn 1.5metr i greu capasiti rheoli llif. Bu hyn yn gymorth i

leddfu problem gorlifant rhan o dref y Bala ar dywydd gwlyb. Adeiladwyd set o lifddorau newydd gerllaw cymer Dyfrdwy a Thryweryn ac ail-gyfeiriwyd rhannau o gwrs y ddwy afon. Adeiladwyd cloddiau llanw a chodwyd pont newydd dros y Ddyfrdwy. Heddiw mae hen Bont Mwnwgl y Llyn a'i thri bwa carreg ar dir sych!

C Gellir gweld colofnau sylfaen hen bont lle croesai rheilffordd Bala- Blaenau Ffestiniog afon Dyfrdwy ychydig i fyny'r afon o'r llifddorau presennol. Mae cynllun Rheoli Afon Dyfrdwy heddiw'n cynnwys dŵr o Lyn Celyn ac afon Tryweryn. Defnyddir y dŵr ddaw allan o Lyn Celyn i gynhyrchu trydan ac mae afon Tryweryn yn ganolfan fyd-enwog i weithgareddau dŵr-gwyn, canwio, rafftio a hyfforddi sgiliau diogelwch yn ogystal â bod yn gyrchfan i bysgotwyr.

D Lluniwyd "Gored Y" adeg adeiladu Cynllun Rheoli Llyn Tegid a'i haddasu ymhellach yn 2012 gyda darpariaeth i hwyluso symudiad pysgod i fyny'r afon i gladdu eu hwyau. Yn yr hydref gellir cael cipolwg ar eogiaid yn llamu yma.

E Mae dwy set o lidiardau i groesi hen drac y rheilffordd. Heddiw mae'n ffordd sy'n arwain at y llifddorau. Yma y gwelwch y rhan o afon Tryweryn a ail-gyfeiriwyd. Ar adegau o dywydd gwlyb eithriadol mae llif yr afon yn medru gorlifo tros "Ored Z" (nid yw honno'n weladwy oddi yma.) Yn uwch i fyny'r afon mae "Gored X" a addaswyd hefyd yn 2012. Dros y dŵr gyferbyn mae'r caban mesur a monitro. Anfonir data oddiyma i ganolfan recordio Cynllun Rheoli Afon Dyfrdwy.

F Maes Parcio "Y Green". Beili a thir comin y dref oedd yma yn wreiddiol yna datblygwyd rhan ohono yn safle gorsaf drên Y Bala ar reilffordd Bala- Blaenau Ffestiniog (1880).

G Plas-yn-Dre. Erbyn heddiw mae'n dŷ bwyta poblogaidd. Yn wreiddiol perthynai i deulu dylanwadol yn hanes tref Y Bala – teulu Llwydiaid Rhiwaedog (Rhosygwaliau) oedd yn hannu o linach Rhirid Flaidd, un o uchelwyr Penllyn. Dyma gartref Simon Llwyd, cyfaill coleg Thomas Charles. Ef



ddaeth â Thomas Charles i'r Bala. Bu Betsi Cadwaladr yma'n forwyn ifanc cyn rhedeg i ffwrdd i Lerpwl yn 14oed. Yn agos i ddiwedd ei hoes bu'n nyrs yn Balacava adeg Rhyfel y Crimea. Mabwysiadwyd ei henw gan Ymddiriedolaeth Ysbytai Gogledd Cymru.

H Cerflun Thomas Edward Ellis A.S., mab i denant fferm y Cynlas, a etholwyd yn Aelod Seneddol Rhyddfrydol dros Feirionnydd. Daeth yn brif chwip y llywodraeth a bu'n ddylanwadol wrth gyflwyno Mesur Diwygio Deddfau Tir yn y senedd

I Y Cwrt. Heddiw mae'n dŷ bwyta. Hwn oedd adeilad mwyaf nodweddiadol y dref ar un adeg – Neuadd y Dref. Ar y safle yma cynhelid Llys yr Ynadon a'r Llysoedd Sirol am ganrifoedd. Yn wreiddiol cynhelid marchnadoedd ar y llawr isaf oedd yn agored. Mae'r hen fwâu i'w gweld lle mae'r ffenestri presennol. Sylwer ar y cloc uwchben – Bu "mynd o dan y Cloc" yn ymadrodd lleol cyffredin am rai a wysid o flaen y llys barn!



J Gwesty'r Llew Gwyn (White Lion Royal Hotel) Galwodd y Frenhines Victoria yno i ddefnyddio'r cyfleusterau pan ymwelodd a'r dref 23 Awst 1889. Bu dathlu mawr yn y dref y diwrnod hwnnw. Roedd hi'n lletya yn Y Pale, Llandderfel.

K Banc Barclays. Yma roedd cartref Sali a Thomas Charles. Daeth Thomas Charles yma i fyw ar ôl priodi Sali oedd yn cadw siop deuluol ar y safle. Yma y cychwynnodd T.C. ei Ysgolion Sul ac i'r tŷ yma y daeth Mari Jones o Lanfihangel y Pennant yn 1800 i brynu ei Beibl. Gweler y placiau coffa ar y mur.

L Tafarn Yr Hen Darw – "Y Bull". Cynhaliwyd Eisteddfod yma yn 1760.

M Neuadd Buddug (Y "Victoria Hall") Adeiladwyd R.J.Lloyd Price, Sgweiar y Rhiwlas, i gofio ymweliad y Frenhines. Bu'n Neuadd gyhoeddus i gynnal cyngherddau, eisteddfodau a dramau cyn ei thro'i'n sinema Cwmni Paramount yn ystod y 50au.